


# Y BROSES GYNLLUNIO

Caiff ein Tîm Cynllunio Amgylcheddol a Chynaliadwyedd mewnlol eu cydnabod fel arbenigwyr yn y diwydiant ac mae ganddynt brofiad sylweddol o bob agwedd ar gynllunio ffermydd solar, o'r gwerthusiadau cychwynnol i fonitro cydymffurfiaeth ar safleoedd gweithredol. Defnyddiwn broses asesu drylwyr ar gyfer pob safle, gan ddefnyddio gwybodaeth leol gan gymunedau ac arbenigwyr i ddatblygu ceisiadau cynllunio manwl ac asesiadau amgylcheddol. Mae cyfnodau allweddol ein proses yn cynnwys:



# YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL PARHAUS



Rydym yn ymfalchio'n fawr mewn ymgysylltu â chymunedau lleol, nid yn unig wrth gynllunio a datblygu ein prosiectau, ond drwy gydol oes y ffermydd solar. Yn ogystal â chynnal diwrnodau agored a theithiau tywys i drigolion, ysgolion a grwpiau lleol, rydym hefyd wedi cynorthwyo nifer o fyfyrwyr addysg uwch ac ecolegwyr â phrosiectau ymchwil bioamrywiaeth drwy roi mynediad iddynt i'n safleoedd.

# CYFLEOEDD ADDYSGOL

O ystyried natur oddefol ffermydd solar, mae'n eithaf diogel i ni gynnal teithiau tywys. O'r herwydd, gall ein prosiectau fod yn adnodd addysgol ardderchog i gymunedau sydd eisiau dysgu mwy am bŵer solar ar garreg eu drws. Rydym wedi cynnal nifer o ymweliadau i'n ffermydd solar gweithredol ar gyfer ysgolion, prifysgolion, cynghorau lleol ac amrywiol grwpiau cymunedol.

